# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG A CHYN-FILWYR 2022

## Crynodeb





# Rhagair gan y Gweinidog i'r Adroddiad Blynyddol

## Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a'r Gweinidog dros Faterion Cyn-filwyr

Mae eleni wedi tynnu sylw mwy manwl at bwysigrwydd ein Lluoedd Arfog fel y rhai sy'n cynnal y safon o ran y gwerthoedd sy'n bwysig i ni fel cenedl. O gynorthwyo Wcráin i amddiffyn ei diriogaeth sofran yn erbyn ymosodiadau Rwsia, talu teyrngedau terfynol i'r diweddar Fawrhydi y Frenhines, i helpu eu cymunedau lleol, yn fwy nag erioed mae cymuned ein Lluoedd Arfog yn ganolog i'n bywyd cenedlaethol, ac yn cynrychioli pwy ydym ni fel gwlad. Gan hynny, rydym yn hynod falch o gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni ar Gyfamod y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr.

Ers 2011, mae Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi bod yn addewid gan y genedl bod y rheini sydd wrthi'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, yn y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae'n addewid na ddylent fod dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Ac mae'n gydnabyddiaeth o'r aberth maent yn ei wneud ar ein rhan a'r cyfrifoldebau sydd arnom tuag atynt yn gyfnewid am hynny. I gefnogi cyn-filwyr, mae ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr erbyn 2028 yn parhau i fod yn wir.

Rydym yn falch bod y nifer swydd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn nesu at y 10,000 yn gyflym, wrth i filoedd o sefydliadau, yn rhai mawr a bach, o'r sectorau preifat a chyhoeddus, o bob rhan o'r DU, wreiddio'r Cyfamod yn eu rhyngweithio â chymuned leol y

Lluoedd Arfog. Roedd troi Dyletswydd y Cyfamod yn gyfraith yn ymrwymiad maniffesto y gwnaethom ei gyflawni’n bendant ac yn gyflym i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i egwyddorion y Cyfamod wrth ddarparu gwasanaethau neu bolisïau ym maes gofal iechyd, addysg a thai. Ochr yn ochr â Strategaeth Teuluoedd y Lluoedd Arfog a’r buddsoddiad mewn Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog, rydyn ni’n falch o’r cynnydd rydyn ni wedi ei wneud. Ond mae mwy i’w wneud o hyd i sicrhau nad yw aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog yn wynebu anfantais oherwydd eu bywyd yn y lluoedd arfog.

Yn achos cyn-filwyr yn benodol, rydym wedi gwneud cynnydd mawr ar draws y Llywodraeth ers cyhoeddi Cynllun Gweithredu’r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr (2022-24) ym mis Ionawr. Mae’r Cynllun Gweithredu hwn wedi canolbwyntio'n fwy penodol ar beth arall y gallwn ni ei wneud, mewn partneriaeth ag elusennau a’r sector preifat, i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

O benodi Comisiynydd Cyn-filwyr cyntaf Cymru, gan sicrhau bod gan bob gwlad lais annibynnol yn hyrwyddo cyn-filwyr, i lansio’r Gronfa Arloesi Iechyd Cyn-filwyr gwerth £5 miliwn, a fydd yn ysgogi datblygiadau mewn triniaethau ar gyfer anghenion iechyd cyn-filwyr, i gymryd camau breision i ddeall ein cymuned cyn-filwyr yn well drwy well ymchwil a data, rydym yn darparu ar gyfer cyn-filwyr a’u teuluoedd.

Yn olaf, rydyn ni eisiau diolch i’r sefydliadau sydd wedi defnyddio’r Cyfamod ac ymrwymiad y genedl i gyn-filwyr fel sbardun i wella profiadau go iawn cymuned ein Lluoedd Arfog.

Mae’r Cyfamod yn unigryw ar gynifer o lefelau, nid yn unig o ran darparu gwasanaethau’n ymarferol i gymuned y Lluoedd Arfog, ond

mae hefyd yn dangos sut gall Llywodraeth ganolog a lleol, gyda'r trydydd sector a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydweithio, gyflawni cymaint dros y rhai sydd wedi gwasanaethu eu gwlad fel hyn. Gan hynny, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwaith anhygoel hwn yn parhau i ddatblygu i wneud y degawd nesaf hyd yn oed yn well.



Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS – Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn



Y Gwir Anrhydeddus Johnny Mercer AS –
Y Gweinidog dros Faterion Cyn-filwyr



Aelod Gatrawd Feddygol 16 yn rhoi hyfforddiant meddygol ar drawma i feddygon o Wcráin.

# Iechyd a gofal iechyd

Mae’r gwelliannau allweddol i staff sy’n gwasanaethu eleni yn deillio o gyhoeddi **Strategaeth Iechyd a Llesiant newydd y Weinyddiaeth Amddiffyn**, sy’n hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a llesiant ar draws Amddiffyn, gan fabwysiadu dull cyfannol o ymdrin ag iechyd meddyliol, corfforol a chymdeithasol. **Canolbwyntiwyd yn ychwanegol ar fenywod y Lluoedd Arfog**, gan arwain at bolisïau, canllawiau ac offer iechyd newydd i helpu menywod y Lluoedd Arfog i ffynnu. Mae’r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod bodlonrwydd y Lluoedd Arfog â’r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn parhau i gyfateb i’r gymdeithas ehangach o leiaf. Mae gwelliannau yn y gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer ein Lluoedd Arfog wedi parhau, gyda **briff ffitrwydd meddwl blynyddol** a **llwybr gofal newydd ar gyfer anhwylderau iechyd meddwl cyffredin**, gan helpu i sicrhau bod cyfraddau iechyd meddwl ymysg staff sy’n gwasanaethu yr un fath yn fras, neu’n well, nag ymysg poblogaeth gyffredinol y Deyrnas Unedig.

Mae’r gwaith i wella’r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir i gyn-filwyr yn cynnwys:

- achredu **528 yn rhagor o feddygfeydd Meddygon Teulu eraill fel rhai sy’n ‘gyfeillgar i gyn-filwyr’**, gan godi’r cyfanswm i 1,578
- cynnwys iechyd cyn-filwyr yng **nghwricwlwm hyfforddi meddygon teulu ac asesiadau trwyddedu meddygon teulu cenedlaethol** yn Lloegr a’r Alban
- lansio **Cronfa Arloesi Iechyd Cyn-filwyr gwerth £5 miliwn**, a fydd yn cynorthwyo sefydliadau sy’n awyddus i ymchwilio a

threialu technoleg arloesol a allai helpu cyn-filwyr sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth

- **Gwasanaeth Dwysedd Uchel Iechyd Meddwl Cyn-filwyr** yn dod yn gwbl weithredol ledled Lloegr
- GIG Cymru i Gyn-filwyr yn treialu **llwybr gofal integredig** ar gyfer cyn-filwyr penodol yn y system cyfiawnder troseddol gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog
- cyllid parhaus gan Lywodraeth yr Alban a **Chonsortiwm Nad Anghofiwn y Lluoedd Arfog**, partneriaeth sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i gyn-filwyr yn yr Alban.



Un o feddygon y Llu Awyr Brenhinol yn gofalu am glaf.

# Addysg

Mae gwaith i wella addysg a llesiant plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- parhau i gyllido **Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog**
- darpariaethau yn y **Cod Derbyn i Ysgolion yn Lloegr**, gan gynnwys eithriadau ar faint dosbarthiadau, i sicrhau nad yw teuluoedd y Lluoedd Arfog o dan anfantais wrth wneud cais am le mewn ysgolion oherwydd yr angen i symud
- gwella'r broses o **adnabod plant y Lluoedd Arfog yn yr Alban** drwy ffurflen Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
- lansio **Ysgolion Cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog Cymru**, statws a roddir i ysgolion yng Nghymru i gydnabod eu hymrwymiad i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn ogystal â'u llwyddiannau wrth ymgysylltu â Chymuned y Lluoedd Arfog.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu bod cyrhaeddiad TGAU plant y Lluoedd Arfog yn Lloegr yn gyfartal â phlant nad yw eu rhieni yn y Lluoedd Arfog yn Lloegr, yn yr un modd â chyfran plant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion a gyllidir gan y wladwriaeth yn Lloegr sy'n mynychu ysgol sydd wedi cael sgôr Rhagorol neu Dda gan Ofsted. Mae plant y Lluoedd Arfog yn fwy tebygol o symud i ysgol arall ar adegau y tu allan i'r cylch derbyn arferol, ond mae plant y Lluoedd Arfog yn Lloegr o leiaf yr un mor debygol o barhau mewn addysg neu gyflogaeth barhaus ar ôl Cyfnodau Allweddol 4 a 5 â phlant cymharol nad yw eu rheini yn y Lluoedd Arfog.

Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio i ganfod ardaloedd awdurdodau lleol lle mae canlyniadau plant y Lluoedd

Arfog yn ymddangos yn waeth na phlant cymharol nad yw eu rhieni yn y Lluoedd Arfog, er mwyn deall y bylchau amlwg yn y canlyniadau a chanfod sut gellir rhoi rhagor o gymorth i blant y Lluoedd Arfog.

# Tai a llety

Cafwyd y **buddsoddiad mwyaf erioed mewn llety i deuluoedd y Lluoedd Arfog** yn 2021/22, gyda chyfanswm o £179 miliwn yn cael ei fuddsoddi. Cafodd cyfanswm o 13,000 o gartrefi i deuluoedd – un o bob pedwar – eu gwella yn ystod 2021/22. Mae £176 miliwn arall o waith gwella ar y gweill yn 2022/23, er mwyn gwella tua 9,800 o gartrefi. Mae Llety i Deuluoedd Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn fwy tebygol o fodloni'r Safon Tai Gweddus na chartrefi rhent y boblogaeth gyffredinol yn Lloegr.

Gostyngodd bodlonrwydd y Lluoedd Arfog gyda gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i'w llety presennol yn y Lluoedd Arfog yn 2022, ond daeth **contractau gwasanaeth llety newydd** i rym eleni. Mae'r cyflenwyr newydd wedi ymrwymo i gyflwyno newidiadau sylweddol i foderneiddio a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i deuluoedd y Lluoedd Arfog.

Cynllun yw **Cymorth i Brynu i'r Lluoedd Arfog** i helpu staff y Lluoedd Arfog i fynd ar yr ysgol eiddo, gyda 28,102 o staff y Lluoedd Arfog yn elwa hyd yma, a chyfanswm o £429 miliwn o fenthyciadau. Mae cynlluniau eraill i helpu staff sy'n gwasanaethu i brynu eu cartref eu hunain yn cynnwys y pecyn **Ad-dalu Treuliau Cyfreithiol** ac **eithrio o unrhyw gyfyngiadau ar brofion cysylltiad lleol** er mwyn bod yn gymwys i gael Cartref Cyntaf. Mae teuluoedd y Lluoedd Arfog ychydig yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain na'r boblogaeth sifiliaid yn Lloegr, ond gall hyn fod oherwydd bod teuluoedd y Lluoedd Arfog yn tueddu i fod yn iau na'r boblogaeth ehangach, ac mae pobl iau yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn parhau i fonitro'r pecyn o fesurau a gyflwynwyd yn 2012 i sicrhau bod aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael yr un mynediad at dai cymdeithasol â'r boblogaeth gyffredinol. Ar hyn o bryd, rydym yn asesu nad oes unrhyw dystiolaeth bod yr amser aros ar gyfer aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn Lloegr yn wahanol o gwbl i'r boblogaeth gyffredinol, ac mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn Lloegr yn fwy bodlon â safon tai cymdeithasol na'r boblogaeth gyffredinol.

Yn yr Alban, mae'r **Llwybr Atal Digartrefedd Cyn-filwyr** wedi ei gyhoeddi, ac mae Llywodraeth yr Alban wedi derbyn pob un o'r 24 argymhelliad mewn egwyddor.



Aelod o'r Llynges Frenhinol a'i deulu mewn maes chwarae ger eu Llety Teulu yn y Lluoedd Arfog.

# Cwestau ac ymgysylltiad barnwrol

Mae Uned Cwestau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cofnodi bod 68 o gwestau (gydag 13 ohonynt yn ymwneud â marwolaeth cyn-filwr) lle mae'r ymchwiliadau wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd.

Pan fydd y risg y bydd staff llawn amser y Lluoedd Arfog yn dioddef marwolaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch yn cael ei meincnodi yn erbyn sectorau diwydiannol eraill, mae'n gymesur â'r diwydiant adeiladu sifil yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddatblygu **astudiaeth ôl-weithredol dros gyfnod o ddeng mlynedd sy'n edrych ar hunanladdiad yng nghymuned y cyn-filwyr**. Mae gwaith i leihau hunanladdiad yng Nghymuned y Lluoedd Arfog, a chefnogi teuluoedd mewn profedigaeth, yn cynnwys:

- **Prosiect Cofrestr Hunanladdiadau'r Sector Amddiffyn**, sy'n parhau i aeddfedu
- cefnogi ymchwil atal hunanladdiad **Mae Un yn Ormod**
- Cyllid gan GIG Lloegr ar gyfer dwy astudiaeth yn ymwneud ag ymyriadau i **gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth** yn dilyn hunanladdiad.

# Y diweddaraf am Strategaeth Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig

Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi ei **Strategaeth Teuluoedd Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig** newydd, sy’n darparu’r fframwaith ar gyfer rhaglen uchelgeisiol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae’r Strategaeth wedi ei rhannu’n wyth ffrwd waith sy’n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar fywyd teuluol yn y Lluoedd Arfog: Bywyd Teuluol; Bywyd yn y Lluoedd Arfog; Cartref y Teulu; Addysg Plant; Gofal Plant; Teuluoedd nad ydynt yn dod o’r Deyrnas Unedig; Cefnogi Partneriaid; ac Iechyd a Llesiant. Mae’r gwaith o gyflawni cynlluniau o dan bob ffrwd waith wedi dechrau.

Bydd rhai o’r newidiadau sydd wedi cael eu treialu yn y Model Llety’r Dyfodol yn cael eu cynnwys yn y polisi presennol fel y cyhoeddwyd yn y **Strategaeth Llety Amddiffyn**.




Mae gan deuluoedd rôl hanfodol i’w chwarae fel aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog.

Yn ogystal â darparu llety yn seiliedig ar angen yn hytrach na statws, **bydd yr hawl i gael Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael ei hehangu** carfannau ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog mewn perthnasoedd hirdymor sefydledig.

Ebrill 2022 oedd **Mis cyntaf y Weinyddiaeth Amddiffyn ar draws y Deyrnas Unedig ar gyfer Plant Milwrol**. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau drwy gydol mis Ebrill i ddathlu plant y Lluoedd Arfog a'r effaith gadarnhaol a gânt ar eu teuluoedd a chymunedau lleol. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys gwasanaethau ysgol a gweithgareddau tîm cymorth llesiant gydag ysgolion a chanolfannau milwrol ledled y Deyrnas Unedig.

Ym mis Mai 2022, cyflwynwyd **'baner' i blentyn y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ar ffurflen gais y Gwasanaeth Mynediad i Brifysgolion a Cholegau (UCAS)**. Mae hyn yn galluogi prifysgolion a cholegau i gynnig cyngor a chymorth mwy pwrpasol i blant y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr sy'n gwneud cais am le mewn prifysgol neu goleg.

Mae **Cynghrair Cynnydd Plant (SCiP) y Lluoedd Arfog** a gefnogir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i wneud cynnydd o ran holl flaenoriaethau'r Gynghrair, gan gynnwys gwelliannau sylweddol yn ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a rhanddeiliaid eraill o fywydau plant y Lluoedd Arfog.

Ers mis Medi 2020, mae cynlluniau peilot wedi bod yn cael eu cynnal i gasglu data ar sut gellid rheoli'r **cynllun gofal plant cofleidiol** yn llwyddiannus. Erbyn mis Ionawr 2022 roedd chwe safle peilot ar waith. Cefnogodd y cynllun ychydig dros 2,000 o blant y Lluoedd Arfog.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Amddiffyn **adolygiad 'dwfn' o'r materion a wynebir gan staff y lluoedd arfog y tu allan i'r**

**Deyrnas Unedig a theuluoedd y Lluoedd Arfog y tu allan i'r Deyrnas Unedig** drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, a chyda chefnogaeth ganddynt. Cyhoeddwyd adroddiad ar 10 Tachwedd 2021 yn crynhoi'r materion a wynebwyd, ac mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu. Bydd y camau gweithredu a'r gweithgareddau'n cael eu cydlynu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda chymorth gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr, gan ddefnyddio cymorth ychwanegol gan adrannau eraill y Llywodraeth yn ôl yr angen.

Fe wnaeth **Gwobrau Dathlu Teuluoedd y Lluoedd Arfog** lwyddo i gynnal ei ddigwyddiad cyntaf ar 22 Ebrill 2022 yng Nghlwb y Victory yn Llundain. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio'n llwyr ar ddathlu cefnogaeth werthfawr teuluoedd milwrol sy'n gwasanaethu. Roedd y digwyddiad yn cydnabod ac yn dathlu'r prosiectau anhygoel mae teuluoedd wedi eu cynnal, y modd maent wedi goresgyn trallod ac wedi meithrin cadernid a dilyn llwybrau gyrfa ysbrydoledig.

Er mwyn helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i gael cymorth i lywio drwy'r system gofal iechyd wrth symud o gwmpas y Deyrnas Unedig, mae cynlluniau peilot wedi cael eu lansio drwy'r Systemau Gofal Integredig newydd, i ddarparu **un pwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog**, a fframwaith cydlynu gofal ar gyfer Systemau Gofal Integredig.



Cwpl a'r ddau yn gwasanaethu a'u plant.

# Busnes, cyflogaeth a’r gymuned

Dyfarnodd **Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog gyfanswm o £26 miliwn** mewn grantiau tuag at brosiectau ledled y Deyrnas Unedig yn 2021/22, a chafwyd £25.3 miliwn o’r swm hwnnw gan y Llywodraeth.

Mae cwmnïau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus ac elusennau sydd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn prysur nesáu at 10,000, gyda **1,634 yn llofnodi dros y 12 mis diwethaf yn unig**. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd y cyfanswm yn 9,122 o lofnodwyr.

Mae’r cymorth i gyflogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog wedi cynnwys:

- parhau i ddefnyddio’r **Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn**, i roi gwobrau efydd, arian ac aur i gyflogwyr sy’n eiriol, yn addo ac yn dangos cefnogaeth i’r Gymuned Amddiffyn a’r Lluoedd Arfog, a chysoni eu gwerthoedd a’u harferion ag egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog
- **grymuso Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog** a staff eraill y Ganolfan Waith i gefnogi milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a chymheiriaid y Lluoedd Arfog yn y ffordd orau
- **cefnogi cyn-filwyr i ymuno â sectorau cyflogaeth penodol**
- **ffeiriau cyflogaeth** yng Nghymru
- **mapio sgiliau i swyddi sifil cyfatebol** yn yr Alban.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu bod cyn-filwyr a phartneriaid y Lluoedd Arfog yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na phoblogaeth gyffredinol oedran gweithio’r Deyrnas Unedig.

# Y Cyfamod yn y gyfraith

Mae'r Llywodraeth wedi cyflawni ei hymrwymiad maniffesto yn 2019 i 'ymgorffori ymhellach Gyfamod y Lluoedd Arfog yn y gyfraith'. Mae **Dyletswydd newydd wedi cael ei chreu ar Gyfamod y Lluoedd Arfog**, sy'n rhoi dyletswydd gyfreithiol newydd ar gyrff cyhoeddus penodol i roi sylw dyledus i egwyddorion y Cyfamod wrth ddarparu gwasanaethau penodol, neu wrth benderfynu ar bolisïau penodol, ym maes gofal iechyd, addysg a thai, a allai effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog. Bydd Dyletswydd y Cyfamod yn cynyddu ymwybyddiaeth cyrff cyhoeddus o egwyddorion y Cyfamod, y rhesymau drosto, ac yn ei dro yn gwella eu gallu i wneud penderfyniadau o ran Cymuned y Lluoedd Arfog.

Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i weld a ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig gael eu cynnwys yn y Ddyletswydd newydd hon, a bydd adroddiad yn cael ei ddarparu yn Adroddiad Blynyddol 2023 y Cyfamod a Chyn-filwyr.



Dwy genhedlaeth o gyn-filwyr y Fyddin yn siarad gyda'i gilydd cyn gwasanaeth coffa.



Mae aelodau o’r Llu Awyr Brenhinol sy'n gwasanaethu yn siarad â chyn-aelod o’r llu.